

Gan fod Ffair Lyfrau'r *Casglwr* i'w chynnal yn Ysgol Penweddig, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth ar 27 Ebrill, a chofio fod Penweddig yn olynnydd i Ysgol Ramadeg Ardwyn, mae'n dda cael dwyn ar gof gyfraniad nodedig y Prifathro cyntaf, David Samuel (1856-1921) a fu'n bennaeth o'i chychwyn ym 1896 hyd ei farw ym Mai 1921. Roedd 'Dewi o Geredigion' yn adnabyddus fel addysgwr, llenor, eisteddfodwr ac un o flaenoriaid amlwg y Methodistiaid yn Aberystwyth.

Mae'r Samueliaid yn hen dylwyth yn y dref a gwasanaethodd sawl cenhedlaeth y bywyd crefyddol, diwylliannol a dinesig yn anrhydeddus. Un o'r tylwyth oedd y cerddor disglair R.S. Hughes a gymerodd Samuel yn enw canol. Roedd yr hynafiaid ymhlith aelodau cyntaf y Tabernacl fwy na dwy ganrif yn ôl, aeth rhai o'r disgynyddion gyda'r fintai o'r Tabernacl i sefydlu Seilo ym 1863, ac oherwydd dadl chwerw yno roedd David Samuel ar flaen y gad yn arwain y criw a sefydlodd Salem. Mae Brynley F. Roberts yn cyfeirio ato fel 'ysgolhaig amlochrog, gŵr galluog a chadarn, os nad ystyfnig', yn ei gyfrol *Cyfannu'r Rhwyg*, a gyhoeddwyd wedi i Seilo a Salem uno yn Eglwys y Morfa. Bu gan David Samuel ddsbarth ysgol Sul yn Salem ar gyfer myfyrwyr y coleg a soniodd llawer ohonynt am eu dyled iddo.

Pan oedd David Samuel yng ngholeg Aberystwyth daeth yn gyfeillgar gyda dau ŵr a fu'n gryn ddylanwad arno, Daniel Silvan Evans, y geiriadurwr a'r offeiriad a deithiai o'i reithordy yn Llanwrin i ddysgu Cymraeg, ac O. M. Edwards, cyfoed ac ysbrydolwr a gŵr a roes lwyfan parod iddo yn ei gylchgronau, *Cymru* yn fwyaf arbennig, i sgrifennu ar amrywiol bynciau. Silvan Evans a awgrymodd wrth y myfyrwr y dylai astudio mathemateg; cafodd ysgoloriaeth yn y pwnc i fynd i Goleg Clare, Caergrawnt, a graddiodd yn ddisglair yno yn *wrangler* yn y pwnc.

Wedi bod yn athro yn Appleby, Westmorland ac Ashburn, Swydd Derby, dychwelodd Samuel i Aberystwyth ym 1877 i agor ysgol ramadeg breifat, ac yna ym 1896 fe'i gwahoddwyd i fod yn Brifathro'r Ysgol Sir newydd, Ardwyn yn ddiweddarach. 65 o fechgyn oedd yno ar y cychwyn ond pan fu farw'r pennaeth ym 1921 roedd y nifer wedi cynyddu i 365. Manylir ar ei lafur mawr yn llyfr Huw Spencer Lloyd, *The History of Aberystwyth County School (Ardwyn)*, 1996.

O gofio'i gyfrifoldebau fel prifathro y mae rhestr

W. J. Edwards yn trafod

Dewi o Geredigion

cyfraniadau cyson Samuel i'r cyfnodolion, yn enwedig i'r *Geninen* a *Cymru*, yn un ryfeddol. Mae'n enghraifft

gyhoeddodd gyfrolau o bregethau Azariah Shadrach, gweinidog cynta'r Annibynwyr yn y dre. Gelwid Shadrach yn



David Samuel M.A. Prifathro 1896—1921.

ragorol o'r diwydrwydd a nodweddaid gynifer o wŷr llên y cyfnod. Bu Aberystwyth yn ffodus fod un o'i meibion mwyaf disglair wedi sgrifennu cymaint am ei hanes dros y cenedlaethau. Gwelais gyfresi ganddo ar Ysgolion, Ysgolfeistri, Cerddorion, Beirdd a Llenorion, Arweinwyr Eglwysig, Eisteddfodau a sawl gwaith bu'n sgrifennu am y Mabinogion. Bu'n beirniadu'n gyson yn adran llên y Genedlaethol, yn arholwr i'r Orsedd, a golygodd gasgliad o faledi Cymraeg, *Cerddi Cymru*.

O blith y cyfresi o ysgrifau yr un fydd o ddi-ddordeb i ni ddarllenwyr *Y Casglwr* fydd yr un ar 'Hen Argraffwyr Aberystwyth' yn *Cymru*, 1907. Wrth drafod sefydlu'r wasg gyntaf yn y dre ym 1809 gan 'ein Caxton boreaf, Samuel Williams', a ddaethai i'r dre o Gaerfyrddin fe ddywed 'fod hen argraffyddion Aberystwyth, bob un ohonynt, un ai yn enedigol o dref hanesyddol Caerfyrddin, neu wedi dysgu eu crefft yno'. Partner Williams oedd John James, gweinidog Bethel, Eglwys y Bedyddwyr yn Heol y Pobydd. Deunydd crefyddol oedd pennaef gynnyrch y wasg yn Heol y Bont (lle bu sawl un yn argraffu) ond ym 1816 cyhoeddwyd cyfrol fechan a elwid yn *Aberystwyth Guide*.

Wedi marw Samuel Williams ym 1820 yn 38 oed bu'r wasg yn ffyniannus gydag Esther, ei weddw, a Philip, y mab, yn gofalu amdani. Y wasg

Bunyan Cymru - a dyna'r enw geir ar ei feddfaen ym mynwent Eglwys Mihangel Sant. Hoffai Shadrach roi teitlau digrif ar ei gyfrolau, megis *Dyfroedd Siloam sy'n cerdded yn araf* (1827); *Cerbyd o Goed Libanus*, a *Boglynuau o Arian*. Cyhoeddodd y wasg gyfrol o bregethau John Hughes, Pontrobert, cyfaill Ann Dolwar Fach a John Davies, Tahiti, hefyd. O gofio'r pwsylais ar ddirwest diddorol nodi fod y wasg wedi cyhoeddi 'Traethawd ar Winoedd y Beibl' gan F. Beardsall, wedi'i gyfieithu gan Ivon (un o enwogion y dre) a John James, blaenor yn y Tabernacl a ymfudodd i America tua 1848.

Ymhlith argraffwyr yr Heol Fawr un o'r goreuon oedd John Cox, a symudodd wedyn i Heol y Wig. Roedd ei dad, William, yn llyfrwerthwr, yn fenthyciwr llyfrau (cyn bod llyfrgell), yn farfwr a thorrwr gwallt! Roedd yr argraffdy yn Heol Fawr, yn yr un adeilad a lle cadwai Lewis Edwards ysgol yn 18 oed, cyn iddo ddod yn enwog wedyn fel Prifathro Coleg y Bala. Cafodd Cox ddigon o waith gan mai ef a argraffai bopeth i'r 'Eglwys Sefydledig'.

Yn Heol y Bont y lleolidd gwasg Samuel Thomas ac fe'i cofir fel cyhoeddwr y cylchgrawn 'Lleuad yr Oes', sef 'Amgueddfa fisol mewn Crefydd, Moes, Athroniaeth a Hanes'. Ei olygydd oedd yr enwog Brutus ac yr oedd 'gan y golygydd ysgrifbin awchlym, yn torri fel cleddyf miniog... Yn

1830 symudodd i Lanymddyfri i oleuo mewn cylch arall'. Carcharwyd Sam Thomas am dri mis oherwydd dyledion y cylchgrawn.

'Yr oedd yr argraffwasg a ddefnyddid yn swyddfa Sam Thomas yn un ag iddi hanes a thraddodiad godidog. Dyna'r hen beiriant fu gan John Ryland Harris (Ieuan Ddu), gŵr ieuanc addawol, ysgrifennwr a bardd rhagorol, unig fab ac anwylddyn ei enwog dad, Joseph Harris (Gomer). Ar y peiriant yr argraffodd Gomer *Seren Gomer* ym 1914 - y cyntaf o newyddiaduron Cymru'. Manylir yn ddfyr ar ddiwedd trist y peiriant ar y domen sgrap.

Yr olaf a gaiff sylw David Samuel yw David Jenkins (Dewi Gwenog) o Lanwenog a sefydlodd wasg yn Heol Fawr, am y pared a lle ganed Samuel. Cyhoeddodd gasgliadau o gerddi ac ym 1852 daeth rhifyn cyntaf *Blodeu Gerdd* dan olygyddiaeth Ieuan Gwyllt o'r wasg. Cyfeirir tua'r diwedd at sefydlu'r newyddiaduron, yr *Aberystwyth Observer*, y *Cambrian News* a'r *Welsh Gazette*.

Yn Eisiau

- 1. Golwg ar y Byd** gan Dafydd Lewys 1735 neu 1825.
- 2. Llen y Lannau;** Eisteddfodau 1964, 69, 85 a 93.
- 3. Meirionnydd - Cylchgrawn** yr Urdd Tach. 1949 - y Drydedd Gyfres Cyf. 1, Rhif. 2; Tachwedd 1950 Cyf. 1, Rhif. 6; 1951 Rhifyn 7; 1951 Rhif. 9; 1952 Cyf. 1 Rhif. 10, 11; 1953 Cyf. 2, Rhif. 3 Mawrth; 1954 Cyf. Rhif. 3; 1956; Cyf. 1. Rhif. 2,3,4.
- 4. Y Ford Gron, Cyfrol I Rhif.** 12 Medi 1931; Cyfrol III, Rhif. 8 Medi 1933; Rhif. 9 Gorff. 1933; Rhif. 10 Awst 1933; Cyfr. IV Rhif. 1 Tach. 1933; Rhif. 6 Mehefin 1934; Rhif. 9 Medi 1934; Cyf. V Rhif. 3 Mawrth 1935; Rhif. 7 Mai 1935; Rhif. 9 Gorff. 1935.
- 5. Cylchgrawn Hanes Sir Feirionnydd 1952;** 63.
- 6. Bro a Bywyd - D. Tecwyn Lloyd, gol. Elwyn Edwards.** *Cysyllter* ar (01678) 540 652

Byd Natur

Cwestiwn - Beth a olygir gan tridiau'r deryn du a dau lygad Ebrill?
Wel, y tridiau olaf o fis Mawrth a'r deuddydd cyntaf o Ebrill, a hynny cofier yn yr almanac yn ôl yr hen steil, cyn newid yn 1752 o'r hen gyfrif Juliaidd i'r cyfrif newydd Grygoraidd. *Tridiau deryn du - Ebrill 11, 12 a 13 o'n cyfrif ni. Dau lygad Ebrill* yn Ebrill 11-15 ar hyn o bryd.

Ateb gan R. Alun Roberts (Codwyd o *Llafar*, Haf 1953)